JONES, DAVID (1808 - 1854), gweinidog y Bedyddwyr, a golygydd

Enw: David Jones
Dyddiad geni: 1808
Dyddiad marw: 1854
Priod: E. Jones (née Thomas)
Rhiant: Esther Jones
Rhiant: Benjamin Jones
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog y Bedyddwyr, a golygydd
Maes gweithgaredd: Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Argraffu a Chyhoeddi
Awdur: Benjamin George Owens

Ganwyd ym Mhenrhiwfach, Llanpumpsaint, 1808, yn fab i Benjamin ac Esther Jones. Codwyd ef i bregethu yn Ebeneser, Blaenafon, ac aeth i Goleg y Fenni yn 20 oed. Ordeiniwyd ef yn weinidog ei fam-eglwys yn 1832, a symudodd i'r Tabernacl, Caerdydd, yng Ngorffennaf 1834. Yno y bu hyd ei farwolaeth ar 8 Tachwedd 1854. Yn ystod ei weinidogaeth ym Mlaenafon priododd E. Thomas, Castell Nedd, a ganed iddynt ddau fab.

Etholwyd ef yn gyd-olygydd *Ystorfa Weinidogaethol* (wedi hynny *Ystorfa y Bedyddwyr*) yn 1838, a'r *Bedyddiwr* yn 1840. Cyhoeddodd *Udgorn Jubili Cenhadiaeth y Bedyddwyr*, 1844, a *Y Drych Blynyddol*, 1849. Cyfieithodd *Cydymaith y Bibl* (d.d.), yn ôl pob tebyg o waith y Parch. Ddr. Romeyn, Efrog Newydd, a golygodd yn 1839 ail argraffiad o Enoch Francis, *Gair yn ei Bryd*. Priodolir iddo hefyd holwyddoreg poblogaidd. Bu'n ysgrifennydd cymanfa Morgannwg, 1849-54.

Awdur

Benjamin George Owens

Ffynonellau

R. Evans, *Life and Times of the Rev. David Jones, Baptist Minister, Tabernacle, Cardiff. Also forty of his skeleton sermons* (Llanelli 1885)

Josiah Thomas Jones, *Geiriadur Bywgraffyddol o Enwogion Cymru* (AberdÃ¢r 1867-70), ii, 73-5

Darllen Pellach

Marwnad am y diweddar Barch. David Jones, Caerdydd, yr hwn a fu farw Tachwedd yr 8fed, 1854, yn 46 mlwydd oed (Caerdydd 1854?)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20738036

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

PDF Argraffu Cyfeirnodi

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

Arddull APA

×

Owens, B. G., (1953). JONES, DAVID (1808 - 1854), gweinidog y Bedyddwyr, a golygydd. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 20 Tac 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c-JONE-DAV-1808

Copïo i'r clipfwrdd

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LLGC
NLW
LLYFRGEL
THE NATI
Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government